Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Goleg Beechwood

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu ddrwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Coleg Beechwood yn goleg arbenigol annibynnol a chartref gofal, wedi'i leoli yn Sili ym Mro Morgannwg. Mae'n berchen i Beechwood Court Ltd, sy'n rhan o Ludlow Street Healthcare.

Mae'r coleg yn cynnig lleoliadau dydd a lleoliadau preswyl i ddysgwyr 16 oed a hŷn sydd ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASD), anableddau dysgu neu anaf caffaeledig i'r ymennydd. Mae llawer o ddysgwyr yn dangos ymddygiad heriol hefyd. Mae anawsterau corfforol gan ychydig ohonynt.

Mae'r pennaeth addysg yn arwain tîm o diwtoriaid a chynorthwywyr cymorth dysgu, ac mae'n gyfrifol am ddarparu a chyflwyno'r holl raglenni addysg. Mae uwch dîm rheoli'r coleg yn cynnwys y cyfarwyddwr addysg, rheolwr y cartref gofal a'r arweinydd clinigol.

Ar hyn o bryd, mae 67 o ddysgwyr ar gofrestr y coleg, ac o'r rheini mae 51 yn ddynion ifanc ac 16 yn fenywod ifanc. Daw dysgwyr i'r coleg o ystod eang o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr.

Ymgymerodd y pennaeth addysg cyfredol â'i swydd yn Rhagfyr 2013. Yn Ebrill 2014 y cafodd y coleg ei arolygu ddiwethaf. Yn Ebrill 2015, agorodd y coleg ganolfan alwedigaethol newydd ar safle'r coleg.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae'r coleg wedi gwella'r ddarpariaeth ar y safle ar gyfer cyrsiau galwedigaethol. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno gwaith coed yn y ganolfan alwedigaethol newydd ac wedi cynyddu'r ystod o gymwysterau i gynnwys dyfarniadau BTEC lefel 1 mewn technoleg cerddoriaeth a chelf a dylunio. Hefyd, maent wedi cynyddu maint yr ardal garddwriaeth. Gall dysgwyr ddewis dilyn hyd at bump o gyrsiau galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn y cyrsiau hyn.
- Mae dysgwyr yn ymddwyn yn dda ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfarwyddiadau staff.
- Mae trefniadau effeithiol gan y coleg ar gyfer gwrando ar ddysgwyr. Mae'r cyngor dysgwyr yn cyfarfod bob tymor, ac wedi sicrhau newidiadau sydd o fudd i'r dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys gwella'r ddarpariaeth technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), newid bwydlenni'r coleg ac ehangu'r ystod o weithgareddau allgyrsiol.
- Mae'r tîm staff yn gweithio'n dda â'i gilydd i ddarparu amgylchedd gofalgar a chefnogol. Mae dealltwriaeth dda gan staff o anghenion, galluoedd a

diddordebau dysgwyr.

- Mae uwch arweinwyr, yn cynnwys y seicolegydd clinigol, yn monitro'r defnydd o ymyriadau corfforol a digwyddiadau difrifol yn dda. Maent yn cynhyrchu cynlluniau rheoli ymddygiad cadarnhaol manwl ac asesiadau risg cynhwysfawr. Mae'r rhain yn amlinellu dulliau ymyrryd diogel ac yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion unigol dysgwyr.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd y coleg i'w datblygu:**

- Nid yw lleiafrif o ddysgwyr yn mynychu'n ddigon da neu maent yn hwyr yn gyson.
- Nid yw cyfleoedd i ddarlithwyr rannu arfer dda wedi'u datblygu'n ddigonol.
- Mae'r coleg wedi rhoi gweithdrefnau defnyddiol ar waith i fonitro camau bach dysgwyr mewn dysgu ar gyrsiau achrededig. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws y cwricwlwm cyfan.

## Argymhellion

**Dylai'r coleg:**

A1 Wella presenoldeb lleiafrif o ddysgwyr sy'n gyson hwyr neu absennol

A2 Cynyddu cyfleoedd i ddarlithwyr rannu arfer dda

A3 Ehangu'r gweithdrefnau ar gyfer mesur cynnydd disgyblion i holl feysydd y cwricwlwm

## Cynnydd wrth fynd i’r afael â’r argymhellion o’r nodyn ymweliad neu’r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella presenoldeb dysgwyr**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr wedi rhoi system olrhain ddefnyddiol ar waith i fonitro presenoldeb a phrydlondeb dysgwyr. Maent yn gwybod pa ddysgwyr sy’n absennol neu’n hwyr yn gyson, ac wedi nodi strategaethau ymyrryd i gynorthwyo’r dysgwyr hyn i wella eu lefelau ymgysylltu. Fodd bynnag, dim ond newydd eu rhoi ar waith y mae’r strategaethau hyn ac mae’n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith. Nid yw’r defnydd o ddata i olrhain presenoldeb dysgwyr mewn gwersi unigol wedi’i ddatblygu digon.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod uwch reolwyr yn darparu cyfeiriad clir i’r holl staff sy’n canolbwyntio ar wella deilliannau dysgwyr**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi rhoi blaenoriaeth i wella deilliannau dysgwyr yng nghynllun datblygu’r coleg, ac mae staff yn cyfarfod yn rheolaidd i gyfleu gweledigaeth glir ar gyfer datblygu’r maes blaenoriaeth hwn. Er enghraifft, caiff deilliannau dysgwyr eu trafod mewn cyfarfodydd goruchwylio staff bob tymor, maent yn ffocws clir mewn arsylwadau o sesiynau ac maent wedi bod y brif eitem ar yr agenda ar gyfer diwrnodau hyfforddi staff.

Mae uwch arweinwyr yn darparu adroddiadau manwl i fwrdd llywodraethu addysg misol y coleg ar gynnydd y coleg cyfan a dysgwyr unigol yn erbyn targedau ar gyfer gwella deilliannau dysgwyr.

**Argymhelliad 3: Defnyddio data yn effeithiol i olrhain cynnydd dysgwyr a llywio’r cynllunio**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Caiff dysgwyr eu hasesu pan fyddant yn dod i mewn i’r coleg ac ar ddiwedd bob blwyddyn academaidd. Mae darlithwyr yn cynhyrchu cynlluniau dysgu unigol sy’n gosod targedau priodol ar gyfer pob dysgwr. Lle ceir arfer orau, caiff dysgwyr eu cynnwys yn llawn wrth osod a monitro targedau penodol a mesuradwy.

Mae darlithwyr yn llunio cynlluniau sesiynau manwl gyda ffocws clir ar y targedau a gytunwyd ar gyfer dysgwyr unigol. Mae uwch arweinwyr a darlithwyr yn olrhain cynnydd dysgwyr o ran bodloni’r targedau hyn ac yn llunio adroddiadau cynnydd sy’n cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff a’r bwrdd llywodraethu addysg.

**Argymhelliad 4: Sefydlu cylch sicrhau ansawdd cadarn sy’n cynnwys ffocws clir ar ddeilliannau dysgwyr**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae uwch arweinwyr wedi cryfhau trefniadau'r coleg ar gyfer hunanarfarnu i gynnwys ffocws clir ar wella deilliannau dysgwyr. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn defnyddio ystod eang o wybodaeth, yn cynnwys tystiolaeth o arsylwadau o sesiynau a chraffu ar waith dysgwyr. Mae arweinwyr yn arfarnu dogfennau cynllunio darlithwyr yn rheolaidd ac yn darparu adborth a chyngor adeiladol iddynt sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r coleg.

Mae'r broses hunanarfarnu yn rhoi ystyriaeth dda i farnau staff, dysgwyr, rhieni a darparwyr lleoliadau.

Mae arweinwyr wedi dechrau dadansoddi tueddiadau yn nata perfformiad dysgwyr.

**Argymhelliad 5: Sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr ac yn darparu'r medrau sydd eu hangen arnynt pan fyddant yn gadael y coleg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae arweinwyr wedi cynyddu ystod y cyrsiau y gall dysgwyr ddewis ohonynt. Erbyn hyn, mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu anghenion, diddordebau a galluoedd dysgwyr yn dda. Mae'r coleg wedi gwella trefniadau i ddarlithwyr gynllunio ar gyfer dilyniant, ac mae dysgwyr yn cael y cyfle i symud o gyrsiau lefel 1 i lefel 2 fel sy'n briodol i'w hanghenion.

Mae'r tîm therapi galwedigaethol yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer datblygu medrau byw'n annibynnol dysgwyr. Er enghraifft, maent yn cynhyrchu proffiliau synhwyrau defnyddiol ar gyfer bron pob dysgwyr, ynghyd â chynlluniau gwaith i gefnogi dysgwyr sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus ac yn paratoi prydau bwyd iach.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod pob aelod o staff yn cynnig her briodol i'r dysgwyr mwy abl, fel eu bod yn gallu cyflawni eu potensial llawn**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r coleg yn darparu'n briodol ar gyfer ystod ehangach o allu dysgwyr erbyn hyn. Mae arweinwyr wedi adolygu'r cwricwlwm ac wedi cyflwyno cyrsiau newydd sy'n cynnig her briodol i'r dysgwyr mwy abl.

Mae disgwyliadau uchel gan ddarlithwyr o'r gwaith a gwblheir gan y dysgwyr mwy abl sy'n ymateb yn gadarnhaol i'r lefel her newydd hon. Er enghraifft, maent yn deall y meini prawf sy'n ofynnol i gyflawni cymwysterau ar lefelau gwahanol, ac yn ceisio cyflawni'r deilliannau uchaf posibl.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am y coleg

| | |
|---|---|
| **Coleg** | Coleg Beechwood |
| **Rhif y coleg** | F0006003 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18/05/2015 |
| **Perchennog** | Ludlow Street Healthcare |
| **Staff** | 1 uwch ddarlithydd, 10 darlithydd, 1 rheolwr canolfan alwedigaethol, 1 tiwtor gwaith coed, 12 o gynorthwywyr cymorth dysgu, 50 o weithwyr addysg preswyl. |
| **Nifer y dysgwyr** | 67 |
| **Darpariaeth** | Gofal dydd a gofal preswyl |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r coleg yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau'r sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad llawn diwethaf** | 01/04/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 24/01/2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 23/06/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Elizabeth Ann Dackevych | Arolygydd Tîm |